## AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

Cofnodion cyfarfod Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd ddydd Llun 19eg Rhagfyr 2011 yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Dref, Wrecsam. Dechreuodd y cyfarfod am 10.30am.

**YN BRESENNOL**

| **Y Cynghorydd** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|
| S Frobisher (Cadeirydd) | Cyngor Sir Ddinbych |
| AM Jones (Is-Gadeirydd) | Cyngor Sir Ynys Môn |
| D Barratt | Cyngor Sir Ynys Môn |
| M Ll Davies | Cyngor Sir Ddinbych |
| B Dunn | Cyngor Sir y Fflint |
| G C Evans | Cyngor Sir Ddinbych |
| P C Evans | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| P Jeffares | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| E M Jones | Cyngor Gwynedd |
| J A Kelly | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| D Mackie | Cyngor Sir Ynys Môn |
| A Minshull | Cyngor Sir Ynys Môn |
| J V Owen | Cyngor Sir Ynys Môn |
| R E Parry | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| T Roberts | Cyngor Gwynedd |
| J R Skelland | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| M Thomas | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| G O Williams | Cyngor Gwynedd |

**Hefyd yn bresennol:**

S A Smith (Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr); C P Everett (Clerc a Swyddog Monitro i'r Awdurdod); K W Finch (Trysorydd i'r Awdurdod); D Docx (Dirprwy Brif Swyddog Tân); C Hanks, P Claydon a R Simmons (Prif Swyddogion Tân Cynorthwyol); G Brandrick (Uwch Reolwr Gweithrediadau); R Fairhead (Uwch Reolwr Hyfforddi a Datblygu); G W Griffiths (Uwch Reolwr Diogelwch Tân); S Morris (Rheolwr Cynllunio Corfforaethol); T Williams (Rheolwr Cyfathrebu Corfforaethol); S Forrest (Cyfrifydd, Adran y Trysorydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy); A Davies (Swyddog Cyswllt yr Aelodau) ac S Jones (Cynorthwy-ydd Cyswllt yr Aelodau).

YMDDIHEURIADAU

| **Y Cynghorydd** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|
| L W Davies | Cyngor Sir Ynys Môn |
| E C George | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| M Griffith | Cyngor Gwynedd |
| G James | Cyngor Sir y Fflint |
| D Kelly | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| N M Jones | Cyngor Sir y Fflint |
| W T Owen | Cyngor Gwynedd |
| W P Roberts | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| A Tansley | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |

1 DATGANIADAU O FUDDIANT

1.1 Dim.

2 RHYBUDD O FATERION BRYS

2.1 Nid oedd dim materion brys.

3 COFNODION

3.1 Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod yr Awdurdod Tân ac Achub a gynhaliwyd ar 17eg Hydref 2011 i'w cymeradwyo.

3.2 **PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cofnodion yn gofnod gwir a chywir o'r trafodion.**

4 MATERION YN CODI

4.1 Y Grŵp Ymateb i Ddigwyddiadau ar y Môr (MIRG) – cadarnhaodd y PSTC Claydon fod Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau wedi rhoi terfyn ar y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda'r Grŵp ar 14eg Rhagfyr ac felly, fel y cytunwyd, roedd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi tynnu allan o'r ddarpariaeth.

4.2 Y diweddaraf am Fwrdd Rhanbarthol Cymunedau Mwy Diogel – cadarnhaodd y Clerc y bydd y Gweinidog yn edrych ar drefniadau craffu ar gyfer y Bwrdd Rhanbarthol yn y flwyddyn newydd.

5 ADRODDIAD Y CADEIRYDD

5.1 Roedd adroddiad y Cadeirydd yn rhestru'r cyfarfodydd a'r digwyddiadau yr aeth y Cyng. S Frobisher a'r Cyng. A M Jones iddynt rhwng 8fed Hydref a 15fed Rhagfyr 2011 yn rhinwedd eu swyddi fel Cadeirydd ac Is-Gadeirydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru.

5.2 Gofynnodd y Cyng. T Roberts am ragor o wybodaeth am y cyfarfod a gynhaliwyd gydag Ieuan Wyn Jones AC. Cadarnhawyd bod llythyr wedi ei anfon at holl Weinidogion y Cynulliad i'w gwahodd i gysylltu os oeddent yn dymuno cael eu briffio am y sefyllfa o ran y gyllideb; Ieuan Wyn Jones oedd yr unig AC a oedd wedi gofyn am gyfarfod i drafod y gyllideb.

5.2 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**

6 Y GYLLIDEB DDRAFFT 2012-13

6.1 Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Trysorydd, ac roedd yn cyflwyno cynigion i'r Awdurdod ynglŷn â'r gyllideb ddrafft ar gyfer 2012-13, a'r rhagolygon ar gyfer 2013-14 a 2014-15. Roedd yr adroddiad hefyd yn cynnwys gwybodaeth am yr arbedion a wnaed yn ystod 2011-12. Gofynnodd y Trysorydd i'r Aelodau nodi gwall teipio ym mharagraff 6 – bydd y gyllideb ym mlwyddyn 3 yn uwch o 1%, nid 0%.

6.2 Cafodd yr Aelodau wybod na lwyddwyd i gynnwys y Gyllideb, Strategaeth Flynyddol Rheoli'r Trysorlys a'r Dangosyddion Darbodus ar ffurf Gwerth Gorau oherwydd cyfyngiadau amser, a byddant yn cael eu cyflwyno felly maes o law.

6.3 Nodwyd bod yr Awdurdod wedi cyrraedd y nod arbedion y cytunwyd arno, sef £802,000 ar gyfer blwyddyn 1, ac roedd adroddiad cynhwysfawr wedi ei ddarparu i'r cyfarfod o'r Panel Gweithredol ar 21ain Tachwedd. Roedd y gyllideb ar gyfer 2012/13, sef yr ail flwyddyn o'r strategaeth tair blynedd, i fod yn llai o 0.5% (£815,000 o darged arbedion).

6.4 Yng nghyfarfod yr Awdurdod ar 17eg Hydref, roedd yr Aelodau wedi cytuno i leihau'r gwariant i ddarparu gofal tân a gostyngiad cyfatebol yn lefel y gefnogaeth, a fyddai'n arbed dros £1 miliwn. Roedd y trafodaethau rhwng y swyddogion a'r cyrff cynrychioliadol yn mynd ymlaen yn dda, gyda nifer o gyfarfodydd eisoes wedi cael eu cynnal. Oherwydd yr amserlen dynn, efallai na fyddai'r trefniadau newydd yn barod erbyn 1af Ebrill 2012, ond rhagwelid y byddai tanwariant yn 2011/12 y gellid ei ddefnyddio i ariannu costau pontio tymor byr fel rhan o gyflwyno system gylchrestru yn 2012/13.

6.5 Esboniodd y Trysorydd y byddai cyfraniadau'r awdurdodau cyfansoddol o 2012/13 ymlaen, yn dilyn ymgynghori, yn seiliedig ar yr amcangyfrif poblogaeth ar gyfer y flwyddyn gyfredol yn hytrach na'r amcangyfrifon canol blwyddyn a gynhyrchir gan y Cofrestrydd Cyffredinol ar gyfer y flwyddyn flaenorol. Roedd hyn yn unol â gweithdrefnau Llywodraeth Cymru.

6.6 Rhag ofn y byddai unrhyw newidiadau neu anawsterau gyda phroses y gyllideb, roedd cyfarfod ychwanegol o'r Awdurdod wedi ei drefnu ar 6ed Chwefror 2012 er mwyn sicrhau y gellid ei chwblhau erbyn y dyddiad terfynol sef 15fed Chwefror 2012. Gofynnodd y Cyng. M Ll Davies i'r dyddiad hwn gael ei gynnwys yn y penderfyniad.

6.7 **PENDERFYNWYD**

- **(i) cymeradwyo'r gyllideb ddrafft ar gyfer 2012/13;**
- **(ii) cadarnhau'r strategaeth i'w dilyn er mwyn cael yr arbedion yn 2012/13 a 2013/14;**
- **(iii) nodi'r sefyllfa o ran y gyllideb ar gyfer 2014/15;**
- **(iv) rhoi gwybod i'r awdurdodau cyfansoddol am y cyfraniadau amcanol a fydd yn angenrheidiol ar gyfer 2012/13;**
- **(v) cymeradwyo'r rhaglen gyfalaf ddrafft ar gyfer 2012/13 a'r dulliau cysylltiedig o ariannu;**
- **(vi) trefnu cyfarfod pellach o'r Awdurdod Tân ac Achub, i'w gynnal ar 6ed Chwefror os bydd unrhyw newidiadau cyn 15fed Chwefror 2012.**

7 ALLDRO AMCANOL 2011-12

7.1 Rhoddodd y Trysorydd wybod i'r Aelodau am yr alldro amcanol amcangyfrifiedig am y flwyddyn 2011-2012. Mae'r tanwariant a amcangyfrifir, sef £484,298, yn fychan o'i gymharu â chyllideb o £32 miliwn, a'r argymhelliad yw defnyddio tanwariannau i ariannu costau pontio tymor byr fel rhan o gyflwyno system gylchrestru yn 2012-13.

7.2 Nodwyd bod arwyddion y byddai tanwariant net ar gyflogau; roedd yr Aelodau eisoes wedi nodi'r £450,000 o arbediad ar ddiffoddwyr tân – cyllideb amser cyflawn, ac roedd yn debygol y gellid cael hynny oherwydd ymddeoliadau a dim recriwtio amser cyflawn. Roedd y tanwariant amcangyfrifiedig ar ddiffoddwyr tân yn ôl y galw yn eithaf bychan, sef £99,000. Atgoffwyd yr Aelodau fod yr alldro amcanol yn seiliedig ar y lefelau gweithgarwch cyfredol sy'n gymharol isel, ond petai nifer o ddigwyddiadau mawr dros y tri mis nesaf gallai'r tanwariant yn rhwydd droi'n orwariant.

7.3 **PENDERFYNWYD cytuno y gellid defnyddio'r tanwariannau, petai angen, i ariannu costau pontio tymor byr fel rhan o gyflwyno system gylchrestru yn 2012-13.**

8 GOHEBIAETH GYDA'R AWDURDOD GWEITHREDOL IECHYD A DIOGELWCH

8.1 Cyflwynodd y PSTC Claydon ei adroddiad a oedd yn rhoi gwybod i'r Aelodau am yr ohebiaeth a anfonwyd yn ddiweddar at yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (AGID). Atgoffwyd yr Aelodau fod arolygiad wedi ei gynnal gan yr AGID yn Rhagfyr 2009, a chytunwyd y byddai'r Gwasanaeth yn mynd ati i roi gwybod i'r AGID am y mesurau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r argymhellion a wnaed yn eu hadroddiad.

8.2 Cafodd cynllun gweithredu i fynd i'r afael ag argymhellion yr AGID ei gyflwyno i'r cyfarfod o'r Panel Gweithredol ym Mai 2010. Nodwyd na chafwyd unrhyw ymateb gan yr AGID i gynllun gweithredu'r Gwasanaeth hyd yn hyn. Roedd y Cyng. Dunn ac Aelodau eraill yn bryderus nad oedd yr AGID wedi cael y cwrteisi i ymateb i'r ohebiaeth a anfonwyd atynt, na'i chydnabod.

8.3 Rhoddodd y Cyng. M Ll Davies ganmoliaeth a diolch i'r swyddogion am eu gwaith da a pharhaus mewn perthynas ag iechyd a diogelwch o fewn y Gwasanaeth. Ategwyd y sylwadau gan yr Is-Gadeirydd, gan ddiolch i'r swyddogion am fod yn rhagweithiol yn y maes hwn.

8.4 **PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad a'r cynnydd y mae'r Gwasanaeth wedi ei wneud wrth fynd i'r afael ag argymhellion yr AGID fel yr amlinellwyd yn y llythyr a oedd yn atodiad i'r adroddiad.**

9 Y DIWEDDARAF AM REOLI PARHAD BUSNES YN DILYN GWEITHREDU DIWYDIANNOL AR 30AIN TACHWEDD 2011

9.1 Cafodd yr adroddiad ei gyflwyno gan y PSTC Simmons, a oedd yn nodi'r modd y paratowyd ar gyfer y gweithredu diwydiannol diweddar i ymateb i newidiadau i bensiynau'r sector cyhoeddus. Yn dilyn hysbysiad gan yr undebau fod gweithredu diwydiannol wedi ei drefnu ar gyfer 30ain Tachwedd, roedd y Prif Swyddog Tân wedi symbylu cyfres o gyfarfodydd o'r Grŵp Cynllunio Parhad Busnes. Fodd bynnag, cafwyd cadarnhad yn fuan wedi hynny fod Undeb yr FBU wedi penderfynu peidio â chymryd rhan yn y streic gan gyfyngu'r effaith i swyddogaeth ochr gefnogol y Gwasanaeth.

9.2 Cadarnhaodd y PSTC Simmons fod y trefniadau rheoli parhad busnes ar gyfer tarfiadau mawr i brosesau busnes wedi cael eu profi'n drylwyr, a bod unrhyw wersi a ddysgwyd o ganlyniad i'r gyfres o gyfarfodydd a gynhaliwyd wedi cael eu hymgorffori yng nghynlluniau'r Gwasanaeth.

9.3 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**

10 ADOLYGIAD O'R TREFNIADAU GWAITH GWEINYDDOL

10.1 Cyflwynodd y PSTC Hanks ei adroddiad i roi gwybod i'r Aelodau am y trefniadau newydd ar gyfer darparu cefnogaeth weinyddol yng Ngwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru. Wedi i'r strwythur swyddogion gael ei gyflwyno, ystyriwyd ei bod yn bwysig i bob swyddogaeth yn y Gwasanaeth gael y lefel iawn o gefnogaeth weinyddol. Roedd dau gynllun peilot yn eu lle ers 5 mis, ac roeddent wedi gweithio'n dda.

10.2 Esboniwyd y trefniadau newydd i'r staff gweinyddol, gyda chyfarfodydd un-i-un gyda'r rheolwr AD ar gael i'r rhai yr oedd ganddynt unrhyw bryderon. Rhagwelir y daw'r trefniadau newydd i rym ar 1af Ebrill 2012.

10.3 Diolchodd yr Is-Gadeirydd i'r swyddogion am eu gwaith, ac roedd yn teimlo bod y strwythur cefnogol cywir yn ei le ar gyfer rheolwyr y System Dyletswydd ar gael yn ôl y Galw, ac ar draws y Gwasanaeth yn gyffredinol.

10.4 **PENDERFYNWYD nodi'r trefniadau newydd ar gyfer darparu cefnogaeth weinyddol.**

11 Y POLISI PENSIWN YN ÔL DISGRESIWN

11.1 Cyflwynwyd yr adroddiad i argymell gwelliant i bolisi a benderfynwyd yn wreiddiol yn 1998, a hynny yng ngoleuni gwelliant ôl-ddilynol i'r rheoliadau llywodraethu a ddigwyddodd yn 1997.

11.2 Datganodd y Cyng. Dunn fuddiant personol yn yr adroddiad fel cadeirydd Cronfa Bensiwn Clwyd.

11.3 Yn dilyn cais gan weithiwr i ymddeol yn gynnar ac i gael mynediad cynnar at ei bensiwn, roedd Cronfa Bensiwn Clwyd wedi awgrymu y dylid adolygu a diweddaru'r polisi disgresiwn; felly gofynnwyd i'r Aelodau gymeradwyo'r polisi disgresiwn newydd gyda'r telerau a nodir yn Atodiad B i'r adroddiad. Nodwyd nad oedd unrhyw oblygiadau ariannol i'r Awdurdod.

11.4 Nodwyd bod y broses benderfynu ychwanegol a oedd yn ymwneud â swyddi'r Prif a'r Dirprwy Brif Swyddog Tân wedi cael eu hychwanegu er mwyn cymryd ystyriaeth o newidiadau eraill yn y rheoliadau pensiwn sy'n golygu y gallai deiliaid y swyddi fod yn aelodau o Gronfa Bensiwn Llywodraeth Leol. Roedd angen 'cyfnod aros' o 30 niwrnod cyn y gallai unrhyw benderfyniad dan y polisi disgresiwn ddod i rym.

11.5 **PENDERFYNWYD cymeradwyo'r polisi disgresiwn sydd yn Atodiad B mewn perthynas ag Adran 30 o Reoliadau Pensiwn Llywodraeth leol (Buddion, Aelodaeth a Chyfraniadau) 2007. Ataliodd y Cyng. B Dunn ei bleidlais.**

12 YR ADBORTH I ADRODDIAD MONITRO'R IAITH GYMRAEG

12.1 Cyflwynwyd yr adroddiad gan y PSTC Hanks, ac roedd yn rhoi gwybod i'r Aelodau am yr adborth a dderbyniwyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg mewn perthynas ag Adroddiad Monitro'r Cynllun Iaith Gymraeg 2010-11.

12.2 **PENDERFYNWYD nodi'r cynnydd a wnaed mewn perthynas â'r Cynllun Iaith Gymraeg, a'r sicrwydd a roddwyd i ofalu bod y Gwasanaeth yn parhau i fonitro cynnydd yn y maes hwn.**

13 DYDDIADAU CYFARFODYDD 2012

13.1 Gofynnwyd i'r Aelodau nodi dyddiadau cyfarfodydd ar gyfer 2012. Cytunwyd i ychwanegu'r dyddiad 6ed Chwefror i'r rhestr o ddyddiadau, fel y cytunwyd yn ystod y drafodaeth ar y gyllideb.

13.2 Awgrymodd y Prif Swyddog Tân ei bod, efallai, yn bryd ystyried newid cyfarfod mis Hydref o'r Awdurdod i ddyddiad ym mis Medi. Yn wreiddiol, roedd y dyddiad wedi cael ei symud o fis Medi i fis Hydref oherwydd yr angen i gymeradwyo'r Cynllun i Leihau Risg a Gwella cyn dyddiad terfynol Llywodraeth Cymru sef 31ain Hydref, ond rhagwelid y byddai Llywodraeth Cymru, yn dilyn ymgynghori â'r tri ATA yng Nghymru, yn newid y dyddiad cyflwyno i adeg diweddarach yn y flwyddyn.

13.3 **PENDERFYNWYD:**

**(i) nodi dyddiadau cyfarfodydd 2012 fel a ganlyn:**

- **Cyfarfodydd yr Awdurdod – 6ed Chwefror, Sir Ddinbych (dyddiad am y tro rhag ofn bod unrhyw faterion yn codi mewn perthynas â'r gyllideb); 19eg Mawrth, Gwynedd; 18fed Mehefin, Ynys Môn; 15fed Hydref, Sir y Fflint; 17eg Rhagfyr, Conwy;**
- **Cyfarfodydd y Panel Gweithredol – 6ed Chwefror, 16eg Gorffennaf, 17eg Medi, 19eg Tachwedd;**
- **Cyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio – 30ain Ionawr a 24ain Medi;**

**(ii) ystyried, unwaith y daw cadarnhad gan Lywodraeth Cymru am ddyddiad cyflwyno'r Cynllun i Leihau Risg a Gwella, symud cyfarfod yr Awdurdod ym mis Hydref yn ôl i fis Medi.**

14 COFNODION CYFARFODYDD

14.1 Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfodydd canlynol er gwybodaeth:

- Cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 26ain Medi
- Cyfarfod y Panel Gweithredol a gynhaliwyd ar 21ain Tachwedd.

14.2 **PENDERFYNWYD nodi'r cofnodion er gwybodaeth.**

<u>ADRODDIADAU RHAN II</u>

15 IAWNDAL YN ÔL DISGRESIWN AM DERFYNU CYFLOGAETH YN GYNNAR

15.1 Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Dirprwy Brif Swyddog Tân i geisio cymeradwyaeth i gyflwyno polisi wedi ei ddatblygu'n lleol ynglŷn ag arfer pwerau disgresiwn mewn perthynas ag iawndal am derfynu cyflogaeth yn

gynnar i aelodau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân 1992 a Chynllun Pensiwn Newydd y Diffoddwyr Tân, neu'r gweithwyr hynny sy'n gymwys i ymuno â'r cyfryw gynlluniau.

15.2 Rhoddwyd y diweddaraf i'r Aelodau gan y Dirprwy Brif Swyddog Tân am y cyfarfodydd a gynhaliwyd gyda'r cyrff cynrychioliadol ac a fu'n gadarnhaol iawn; erbyn hyn, cytunwyd i ddatblygu cylchrestr yn benodol ar gyfer Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru.

15.3 Ailadroddwyd bod diswyddiadau gorfodol yn cael eu hosgoi gymaint ag y bo modd, ac yr edrychid ar atebion eraill, gan gynnwys diswyddiadau gwirfoddol. Nid yr oedd yr adroddiad a ddarparwyd i'r Awdurdod yn cynnwys unrhyw ffigyrau oherwydd mai'r hyn a ofynnid i'r Aelodau oedd cefnogi'r cysyniad, mewn egwyddor, o gael cytundeb lleol ar ddiswyddiadau gwirfoddol. Petai cytundeb, byddai angen gwneud gwaith pellach cyn cyflwyno adroddiad arall i'r Awdurdod ei gymeradwyo.

15.4 Dywedodd yr Is-Gadeirydd ei bod yn drist bod ystyriaeth yn cael ei roi i ddiswyddiadau, ond teimlai ei bod yn bwysig, yn foesol, gallu cynnig y pecyn gorau posib i'r rhai a allai fod yn ystyried gwneud cais am ddiswyddiad gwirfoddol. Roedd Aelodau eraill yn cytuno, ac roedd y Cyng. M Thomas yn cefnogi gwella'r cynllun diswyddiadau gwirfoddol. Llongyfarchwyd y swyddogion gan y Cyng. T Roberts am y gwaith oedd yn mynd yn ei flaen mewn perthynas â'r gorchwyl anodd hwn.

15.5 **PENDERFYNWYD cytuno, mewn egwyddor, i daliad diswyddo wedi ei gytuno'n lleol am ddiswyddiadau gwirfoddol i'r gweithwyr hynny sy'n aelodau o CPDT neu CPNDT, neu'r gweithwyr hynny sy'n gymwys i ymuno â'r cyfryw gynllunio. Ataliodd y Cyng P C Evans ei bleidlais.**

16 YR AWDURDODAU TÂN AC ACHUB YNG NGHYMRU: DOGFEN AMLINELLOL STRATEGOL A THRAFOD

16.1 Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Prif Swyddog Tân, a'r bwriad oedd hybu trafodaeth ymysg yr Aelodau am y trefniadau llywodraethu a strwythurol presennol ac yn y dyfodol ledled Cymru. Hefyd, roedd yr adroddiad yn rhoi gwybod i'r Aelodau am argymhelliad y Prif Swyddog Tân ar gyfer cael rhagor o arbedion mewn cyd-destun Cymru gyfan.

16.2 Yn dilyn cyhoeddiad PST y De ei fod yn bwriadu ymddeol, cynhaliwyd cyfarfod o Gadeiryddion a Phrif Swyddogion Tân y tri ATA yng Nghymru i drafod goblygiadau ymddeoliad Mr Marles. Talwyd sylw penodol i brofiadau awdurdodau lleol yng Nghymru wrth fynd ati i gyflwyno'r agenda a osodwyd gan Adolygiad Simpson. Ystyriaeth bellach oedd rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer y dyfodol, a deellir y bydd yn dod â deddfwriaeth sy'n galluogi'r Gweinidog i orfodi awdurdodau lleol yng Nghymru i rannu uwch swyddogion a phrif weithredwyr.

16.3 O ganlyniad i'r trafodaethau hyn, cafodd y Prif Swyddogion Tân y gorchwyl gan y tri Chadeirydd i ddatblygu papur opsiynau a fyddai'n ystyried yr holl faterion perthnasol, ac yn cymell trafodaeth ymhlith yr aelodau yn y tri ATA. Darparwyd copi o'r adroddiad i bob Aelod.

16.4 Casgliad yr adroddiad yw mai'r opsiwn mwyaf addawol yw'r model o dri gwell awdurdod, a hynny i gyd-fynd â'r opsiwn strwythur gweithio mewn partneriaeth y mae Llywodraeth Cymru wedi ei ddweud y mae'n ei ffafrio. Y gwelliant allweddol fyddai ffurfio Pwyllgor Materion Cenedlaethol ar gyfer Tân a Chydnerthu, a hwnnw wedi ei greu'n bwrpasol ar gyfer symud cydweithredu yn ei flaen, a fyddai'n cael gwared ar aneffeithlonrwydd ac yn sicrhau cysondeb o ran dull trwy Gymru.

16.5 Roedd yr Aelodau'n bryderus ynglŷn â'r awgrym y gallai nifer yr Awdurdodau Tân ac Achub ostwng. Diolchodd y Cyng. P C Evans i'r swyddogion am yr adroddiad, roedd yn cytuno â theimladau'r adroddiad ac yn ystyried ei bod yn bwysig i'r tri ATA barhau'n annibynnol er mwyn sicrhau bod dylanwad lleol, ac ategwyd hyn gan Aelodau eraill.

16.6 Roedd y Cyng. M Thomas yn teimlo bod Caerdydd eisiau cael rheolaeth eto; roedd y Cyng. Thomas yn ystyried bod mwy o gydweithio'n digwydd yn y Gogledd nag mewn sawl awdurdod arall, a bod yr Awdurdod a'r Gwasanaeth yn cael eu rheoli'n dda. Teimlai mai bach fyddai'r arbedion oherwydd y materion cludo rhwng y gogledd a'r de.

16.7 Roedd y Cyng. M Ll Davies yn cytuno â'r sylwadau a wnaed, ac yn gobeithio y byddai Llywodraeth Cymru yn talu sylw i'r adroddiad, ac na fyddai'r syniad yn cael ei ddwyn ymlaen dim ond er mwyn newid. Roedd y Cyng. Mackie yn cytuno ac yn ystyried nad oedd canoli yn rhywbeth i'w ddymuno gan y byddai'r rhan fwyaf o'r swyddogaethau yn symud i'r de. Ychwanegodd yr Is-Gadeirydd bod datganoli yn rhywbeth i'w groesawu ond ei bod yn bwysig fod y grym ymhob rhan o Gymru, ac nid yng Nghaerdydd yn unig.

16.8 Roedd yr holl Aelodau'n cefnogi'r cydweithio ar draws y tri ATA, ac yn ystyried bod hynny wedi bod yn llwyddiannus iawn dros y blynyddoedd, ond yn teimlo ei bod yn bwysig i'r tri Gwasanaeth barhau i ddarparu gwasanaeth lleol sy'n gweddu i anghenion eu hardaloedd.

16.9 **PENDERFYNWYD**

**(i) nodi'r Ddogfen Amlinellol Strategol a Thrafod;**

**(ii) nodi a chefnogi'r dewis y mae'r tri Phrif Swyddog Tân yn eu ffafrio;**

**(iii) awdurdodi, yn amodol ar gytundeb yr ATAau eraill yng Nghymru, bod Cadeirydd yr Awdurdod, mewn ymgynghoriad â'r Prif Swyddog Tân, y Clerc a'r Trysorydd yn ffurfio Pwyllgor Materion Cenedlaethol gydag ATA y Canolbarth a'r Gorllewin, ac ATA y De.**